




tud 3
Dathlu'r Nadolig

tud 4/5
Ysgol

tud 9
CFfI Tal-y-bont a'r Cylch

tud 9/11
Cletwr

Teulu Tynant ar y brig

Bu'r wythnosau diwethaf yn gyfnod prysur ond hynod lwyddiannus i deulu gweithgar Tynant, Tal-y-bont. Cynhaliwyd Ffair Aeaf Lloegr ar yr 20fed a'r 21ain o Dachwedd ar safle sioe sirol Swydd Stafford gydag Elgan a Siwan Evans, Pantcoch yn cystadlu gyda'r bustach du Pennantlliw Zed gan gipio'r wobr gyntaf yn yr adran 'unrhyw frid arall pedigree', cyn mynd ymlaen i ennill pencampwr y bridiau brodorol a hynny yn erbyn bridiau yn cynnwys yr Hereford, y Shorthorn, y South Devon a'r Longhorn. Tipyn o gamp.

Parhau wnaeth y cystadlu yn Ffair Aeaf Frenhinol Cymru, un o sioeau stoc dethol gorau Ewrop, ar y 29ain a'r 30ain o Dachwedd gydag Elgan a Siwan Evans, Pantcoch yn ennill yn adran bustych y Gwartheg Duon unwaith yn rhagor gyda Pennantlliw Zed. Aeth y bustach ymlaen i ennill Pencampwriaeth y Gwartheg Duon Cymreig ac i goroni'r cyfan ennill y gil-wobr yn adran y bridiau cynhenid. Braf oedd gweld gwerthu'r bustach ar ddiwedd y cystadlu i gigydd lleol sef Cigydd Bow Street fel rhan o arlwy'r cwmni ar gyfer dathliadau'r Ŵyl.



Ond, fel y gwyr nifer o ddarllenwyr Papur Pawb, nid ym myd y biff yn unig y mae teulu Tynant yn serennu ond gyda'r dofednod wrth gwrs a nifer ohonom yn mwynhau llafur caled y teulu fel rhan o'n cinio Nadolig yn flynyddol. Daeth llwyddiant arbennig unwaith eto yn y Ffair Aeaf gyda sawl gwobr gyntaf yn cynnwys; 1af: Twrci dan 16 pwys, 1af: Gŵydd, 1af: Cyw iâr dan 8 pwys, 1af: Cyw iâr dros 8 pwys, 1af Hwyaeden, 2ail: Hwyaeden.

Aeth y Twrci dan 16 pwys ymlaen i ennill y bencampwriaeth ac fe'i gwerthwyd am £660 i gwmni Cigydd Teuluol Morgans, Llanfair ym Muallt. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu ar eu llwyddiant a phob lwc gyda'r cystadlu i'r dyfodol a gyda'r gwaith caled wrth i ni nesáu at y Nadolig.



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins
(01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com

Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL

Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
832592

Parsel Henllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn
832076

Bont-goch:

Cathryn Lloyd-Williams
cat_yfoel@hotmail.com

Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
832573

Eglwys-fach/Ffwrnais:

Non Griffiths
(01654) 781264

Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
832697

Is-gadeirydd:

Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
832773

Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
832344

Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
832093

Tanysgiriadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
832448

Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

Dylunio:

Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones;
Carys Briddon, John Evans

Cyhoeddwyd gan
Gymdeithas Papur Pawb.
Ariennir yn rhannol gan
Llywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gwpeylfr (@papurpawb)

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Rhian a Catrin, gyda Ceri'n
dylunio. Diolch iddynt.

Golygyddion rhifyn Ionawr fydd
Menna Morgan
(menna.morgan@googlemail.com)
a Gwyn a Fal
(golygydd@papurpawb.com).

Dyma fydd rhifyn cyntaf Menna
fel golygydd felly croeso iddi.

Y dyddiad cau yw 7 Ionawr 2022
a bydd y papur ar werth ar
14 Ionawr.

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2021 – dros £20,800 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau
sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais a manylion ar gael o: **cronfaeleri.cymru**

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri

Garreg Wen

Tal-y-bont

Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.cymru

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 13eg 2022

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol
cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

Nid ydym yn anfon cardiau
eleni ond mi fyddwn yn rhoi
cyfraniad at Gymorth
Cristnogol.

Gwilym ac Ann Jenkins,
Llety'r Bugail

Mae Eleri a Gwilym,
Meisgyn, yn dymuno
Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i'w
holl ffrindiau yn ardal
Papur Pawb.
Pob dymuniad da!



Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £9.95 Dau gwsrs £11.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont



Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch
sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys
Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng
niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Dyddiadur

RHAGFYR

- 10 Cwis 8 Wildfowler
12 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwys-fach 9.30
Gwasanaeth Boreol
Carolau yng Nghaffi
Cletwr 4 Cyfyngiad ar y
niferoedd, felly cysylltwch
gyda
nigel.w.hardy@gmail.com i
ddweud eich bod am ddod
14 Cymdeithas y Chwiorydd
Rehoboth 2 'Llaeth Teulu
Jenkins' (Sara Jenkins)
16 Merched y Wawr
Tal-y-bont a'r Cylch
Bingo 7.30 Wildfowler
17 Eglwys Llangynfelyn yn
Llanfach 5 Gweddi
Hwyrol
19 Bethel 10 Uno â Seion
(Zoom)
Eglwys Sant Mihangel,
Eglwys-fach 4 Carolau yng
ngolau kannwyll, gyda
gwin cynnes a mins peis i
ddilyn yn Ynyshir
25 Bethel 10 Gwasanaeth
Bore Nadolig

IONAWR

- 2 Bethel 10 Uno â Seion
(Zoom)
7 Cwis 8 Wildfowler
9 Bethel 10 Gwilym Tudur (C)
11 Cymdeithas y Chwiorydd
Rehoboth 2 'Papur Pawb a
phapurau bro eraill' (Gwyn
Jenkins)
13 Bingo 7.30 Wildfowler

Cletwr Dydd Mawrth 1-4
'Clonc a Gweu'

Gwasanaeth Scanio ARTHUR MORGAN



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292



Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Pobl a Phethe

Cydymdeimlo

Gyda thristwch mawr bu farw Milo Drakeley, Maes y Deri, ar ddiwedd mis Tachwedd yn 13 oed.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda'i rieni Claire a Paul, a'i chwiorydd Esme ac Edith.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i Mair Rowlands, Erglodd, Taliesin sydd yn gwella ar ôl cael llawdriniaeth ar ei chlun yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Gwilym ac Anne Jenkins a'r teulu Llety'r Bugail, Tal-y-bont, Margaret Jones a'r teulu Nantgaredig, Tal-y-bont, Non a John Griffiths a'r teulu Fferm Ffwrnais, Ffwrnais, Gwenda Hopkins a'r teulu, Caerdydd, ar farwolaeth chwaer a chwaer yng nghyfraith sef Edna Thomas, Cross Inn ger Cei Newydd (Edna Tynygraig, Tal-y-bont gynt). Bu Edna a'i diweddar briod Emyr yn byw yn Lletylwydin, Tre'r-ddôl am gyfnod.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Holly, merch Alan Williams, Gwarcwm Isaf, Taliesin wedi iddi basio fel 'Air Hostess'. Pob lwc i ti ar dy deithiau tramor, Holly.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at deuluoedd Gwarcwm Isaf, Taliesin a Phensarn, Tal-y-bont ar golli modryb sef Shirley Swallow, Llanfarian gynt o Gwarcwm Isaf, Taliesin.

Croeso

Croeso i Dorothy Wilson sydd newydd symud i fyw i Llwyn Haf, Tal-y-bont.

Serennu yn y West End

Llongyfarchiadau mawr i Sam Ebenezer sydd wedi hir aros yn sgil cyfyngiadau Covid, yn ymddangos yn nrama enwog Agatha Christie, 'The Mousetrap' yn Llundain ers y 23 Tachwedd. Mae Sam yn chwarae rhan y Ditectif Trotter a phob lwc i ti gyda'r cynhyrchiad.

Ymddeoliad Hapus

Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i Huw a Sue Lewis, Tre'r-ddôl sy'n ymddeol ar ôl rhedeg cwmni Teiars Huw Lewis am 43 o flynyddoedd. Bydd gwaith y cwmni yn parhau yn Aberystwyth, Machynlleth a Llanbedr Pont Steffan yn nwylo'r perchnogion newydd Micheldever. Maen nhw fel teulu wedi gwasanaethu eu hardal yn ddiwyd a diflino dros y blynyddoedd a phob amser yn barod iawn eu cymwynas. Mwynhewch y cyfle i ymlacio wrth ddechrau ar bennod newydd.

Cydymdeimlo


Cydymdeimlwn a theulu'r diweddar John Davies, Stryd Maegwyn, Machynlleth. Bydd nifer o ddarlennwyr Papur Pawb yn cofio John o'r cyfnod y bu'n rhedeg Tafarn y Llew Gwyn yn Nhal-y-bont a hynny dros nifer lawer o flynyddoedd. Trist oedd clywed am farwolaeth Jack White gynt o Cae'r Deintur, Tal-y-bont yng nghartref Plas Cwmcynfelin yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â'r teulu a'r ffrindiau oll.

Wrth i Bapur Pawb fynd i'w wely daeth y newydd trist am farwolaeth Dr Wynne Davies, Meisgyn gynt o Central Stores, Tal-y-bont. Cydymdeimlwn â theuluoedd Llety'r Bugail a'r Bryn, Tal-y-bont.

Dathlu'r Nadolig



Braf gweld bod trigolion Tal-y-bont wedi ymgymryd â'r her o godi calonnau pawb gydag arddeliad unwaith eto eleni wrth greu calendr adfent yn y pentref er mwyn rhoi gwên ar wyneb pawb yn ystod yr wythnosau yn arwain i fyw at y Nadolig. Mae pob cartref sy'n rhan o'r cynllun yn addurno ffenest sy'n cael ei ddatgelu ar ddyddiad neilltuol ac a fydd wedi eu goleuo o 5yh tan 10yh bob nos tan y Nadolig, a thu hwnt. Mae'r arddangosfeydd hyd yma wedi bod yn wledd i'r llygad a phlant bach a 'mawr' yr ardal wedi eu cyffroi yn fawr wrth edrych ymlaen at y datgelu dyddiol mewn gwahanol rannau o'r pentref. Gwelir ar y map y lleoliadau sy'n rhan o'r cynllun ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld yr arddangosfeydd sydd eto i ddod.





Plant Mewn Angen



Maint Cymru



Cydwethio Campus



Gwasanaeth Tân



Maint Cymru



Wythnos Gwrth-fwllo



Latkes

Ysgol Tal-y-bont

Ysgol Iach – Plant Mewn Angen

Eleni roedd y Cyngor Ysgol wedi penderfynu gofyn i bawb wisgo dillad ffansi i'r ysgol ar ddiwrnod Plant Mewn Angen, sef pyjamas a dillad smotiog! Cafwyd prynhawn hwyliog iawn gydag aelodau gweithgar y Cyngor Ysgol wedi trefnu llawer o weithgareddau cyffrous. Diolch i bawb am gyfrannu mor hael ac am godi swm teilwng iawn eleni eto.

Poster Codi Calon

Mae dosbarth Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn brysur yn meddwl sut i wneud eu ffrindiau'n hapus. Roedd y plant wedi creu poster hyfryd yn ateb y cwestiwn 'Beth hoffet ti glywed pan wyt ti'n teimlo'n drist?'

Cydweithio Campus

Yn ystod y mis aeth plant hŷn yr ysgol i ddysgu'r plant lleiaf am wahanol agweddau o addysg gan gynnwys sut i chwarae Minecraft a chreu animeiddiadau. Roedd hi'n hyfryd i weld y plant yn cymysgu ac yn helpu ei gilydd mor naturiol.

Ysgol Eco – Maint Cymru

Defnyddir 'ardal maint Cymru' yn aml i fesur cyfradd dinistrio coedwigoedd. Mae Maint Cymru yn annog pobl Cymru i helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd trwy gymryd camau cadarnhaol syml. Maent yn gweithio gydag ysgolion i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd coedwigoedd wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Diolch yn fawr i Elin Crowley am y gweithdy diddorol – fe wnaethom ni ddysgu llawer o ffeithiau am sut allwn ni helpu. Mae Elin wedi bod yn cydweithio gyda Cletwr dros y misoedd diwethaf i gyflwyno gweithdai celf i blant yr ardal.

Bags 2 School

Diolch yn fawr i chi am gefnogi'r ysgol wrth ddod â hen ddillad i'r ysgol. Bydd yr arian yn mynd at brynu adnoddau newydd i'r plant.

Gwasanaeth Tân

Mae gan yr ysgol gysylltiad cryf iawn gyda'r Gwasanaeth Tân ac yn ystod y mis cafodd plant y Cyfnod Sylfaen ymweliad arbennig gan Bethan. Yn y gorffennol rydym wedi gallu croesawu'r Frigâd Dân i'r ysgol ac wedi mwynhau gweld yr injan dân ar yr iard. Ond yn anffodus, ymweliad rhithiol oedd hwn y tro yma. Diolch yn fawr i Bethan am gadw cysylltiad efo'r ysgol ac am y cynghorion doeth. Rydym yn croesi bysedd y gallwn ei chroesawu i'r ysgol ar gyfer yr ymweliad nesaf!

Latkes

Mae'r Iddewon yn dathlu gŵyl Hanukkah dros wyth diwrnod ym mis Tachwedd. Mae'n draddodiad i gynnu canhwylau ar ganhwylbren gyda naw cangen, sef y menorah (neu Hanukkah) ac oherwydd bod olew yn bwysig i'r ŵyl, maent yn paratoi bwyd arbennig fel latkes, (teisennau tatws) sydd wedi eu coginio mewn olew. Diolch yn fawr i Mrs Nelmes am goginio latkes gyda ni ac i Noah ac Alba am rannu eu profiadau o ddathlu'r ŵyl gyda'i deulu.

Gwefan Newydd

Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Arron Hiscox am ei holl waith yn creu gwefan newydd i'r ysgol. Os nad ydych wedi cael cyfle i bori eto, ewch draw i www.talybont.ceredigion.sch.uk am fwy o wybodaeth a lluniau o'n gweithgareddau.


Darllen yr Adfent

Dyna syniad hyfryd y mae Blwyddyn 3 a 4 wedi ei gael eleni. Mae pob plentyn yn y dosbarth wedi dod â'i hoff lyfr i'r ysgol mewn papur lapio Nadolig a bob dydd bydd Miss Morris yn dewis un o'r llyfrau i ddarllen i'r dosbarth fel Adfent y Llyfrau.

Fydd ddim cyfle i ddymuno'n dda i bawb yn gyhoeddus eleni eto, felly Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Wythnos Gwrth-fwlio

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Wythnos Gwrth-fwlio fe ddaeth y plant a'r staff i'r ysgol yn gwisgo sanau od, sanau oedd ddim yn perthyn i'w gilydd i ddathlu ein bod ni gyd yn unigryw. Diolch yn fawr i bawb am gymryd rhan i godi ymwybyddiaeth o'r neges bwysig yma. Trefnwyd gwersi arbennig er mwyn trafod y gwahaniaeth rhwng bod yn gas a bwlio a pha mor bwysig ydy hi i fod yn garedig wrth bawb. Dyma boster wnaeth Martha gynhyrchu i fod ar flaen Polisi Gwrth-fwlio'r ysgol.



James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

TEIARS HUW LEWIS

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221**

Bethel Tal-y-bont



Bore Sul 21 Tachwedd fe groesawyd y Parchedig Gwilym Tudur i'w wasanaeth cyntaf yn dilyn ei gyfarfod Ordeinio a Sefydlu ddiwedd mis Hydref. Yn y llun gwelir swyddogion a diaconiaid Bethel gyda Gwilym a'i briod Alex. O'r chwith i'r dde: Phil Davies, Gwilym Jenkins, Enoc Jenkins, Gwilym Tudur, Ieuan Morgan, Alex Tudur, Falyri Jenkins a David Nutting. Ar 28 Tachwedd arweiniwyd yr oedfa gan Geraint Evans a chafwyd cyfle i weld ffilm o gyfraniadau plant yr Ysgol Sul yn ystod y gwasanaeth Sefydlu. Bydd yr oedfa nesaf fore Sul 12 Rhagfyr lle bydd Gwilym yn gweinyddu swper yr arglwydd ac yna cynhelir oedfa fer am 10.00 fore dydd Nadolig yng ngofal Gwyn a Falyri Jenkins.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Eiry Evans oedd ein gwraig wadd nos Iau, 21 Hydref. Mae Eiry wedi'i hyfforddi mewn triniaeth adweitheg (reflexology) ac wedi sefydlu busnes o'r enw Trít yn ei chartref yn Bow Street. Esboniodd Eiry mai triniaeth holistig yw adweitheg sy'n trin y traed mewn ffordd benodol. Gyda chymorth siartiau cawsom wybod fod ein traed a'n dwylo, wedi'u rhannu i ardaloedd adwaith sy'n cyfateb i fannau eraill o'r corff. Er mwyn gallu dangos hyn yn gliriach gofynnodd am ddwy wirfoddolwraig o blith yr aelodau. Gwirfoddolodd Megan Mai, trefnydd y noson, i orwedd yn y gadair bwrpasol a chafodd gyfle i ymlacio wrth i Eiry esbonio sut roedd y driniaeth yn gweithio a pha fannau'n union o'r traed oedd yn cyfateb i rannau penodol o'r corff. Mae'n debyg fod ardaloedd adwaith cyfatebol ar y dwylo hefyd a dangoswyd hynny ar ddwylo'r ail wirfoddolwraig, Trish Huws.

Wrth ddiolch i Eiry am noson ddiddorol, addysgiadol a chartrefol dymunodd Megan Mai yn dda iddi yn ei menter newydd. Yn ôl pob tebyg mae sawl aelod eisoes wedi mynychu apwyntiad llesol gydag Adweitheg Trít.

Nos Iau 18 Tachwedd, cawsom noson ddifyr yng nghwmni un o'n haelodau, sef Ellen ap Gwynn. Mae Ellen wedi cynrychioli'r ardal am ddwy-flynedd-ar-hugain ar Gyngor Ceredigion ac wedi bod yn Arweinydd y Cyngor ers bron i ddeg mlynedd. Bu'n egluro'r math o waith sy'n cael ei wneud gan y Cyngor o ddydd i ddydd. Fe'n synnwyd cymaint o wasanaethau sy'n dod o dan adain y Cyngor a phob un ag anghenion gwahanol.

Un o'r goruchwylion cyntaf a gafodd Ellen yn ei gwaith fel Arweinydd oedd delio â'r llifogydd a gafwyd yng Ngheredigion ac yn arbennig felly yn Nhalybont. Eto, yn ddiweddar, daeth problem fawr y Covid a'n gorfodi i newid ein ffordd o fyw. Yn naturiol bu'n rhaid i'r Cyngor ymateb, a chafwyd sawl llwyddiant, yn enwedig wrth ddatblygu systemau Tracio ac Orlhain. Diolchwyd i Ellen gan Eryl ac fe ddymunodd yn dda iddi yn yr Etholiad y flwyddyn nesa. Roedd y noson yng ngofal Diana ac Eryl.

Cydymdeimlwyd â Mair, Erglodd, yn ei phrofedigaeth o golli Hugh. Hefyd dymunwyd gwellhad buan iddi ar ôl cael triniaeth ar ei chlun yn Ysbyty Bronglais.

Safoni Enwau Lleoedd Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi penderfynu safoni enwau pentrefi a threfi'r sir gan fod sillafiadau amrywiol yn achosi diffyg cysondeb mewn arwyddion ffyrdd, mapiau, dogfennaeth, gweithredoedd tir ac yn y blaen.

Derbyniodd y Cyngor argymhellion gan Gomisiynydd Bwrdd yr Iaith ac ymgynghorwyd yn eang gyda chynghorau cymuned y sir. Felly, o hyn allan, y sillafiad cywir o leoedd yn nalgylch Papur Pawb fydd (yn nhrefn yr wyddor):

Bont-goch
Craig-y-penrhyn
Eglwys-fach
Llangynfelyn
Tal-y-bont
Tre'r-ddôl

Ar wahân i'r defnydd o gysylltnodau, yr unig safoni pwysig yw sillafiad Llangynfelyn. Yn rhy aml gwelir y defnydd o 'Llangynfelin' sy'n gwbl anghywir. Enw'r sant oedd Cynfelyn, sef un â phen melyn. Nid 'melin' wlaen neu wynt sy'n perthyn i'r enw. Cofier hefyd bod yr enw Cynfelyn yn treiglo ar ôl Llan.

Mae'r safoni hwn yn gwneud synnwyr a gobeithio y bydd pawb, gan gynnwys ein busnesau lleol, yn defnyddio'r enwau safonol o hyn allan. Dyma'r ffurfiau fydd yn ymddangos ym Mhapur Pawb.

GJ

Doniol

Roedd Jac ac Ifan yn gweithio mewn swyddfa yn Y Lolfa. Un diwrnod roedd Jac wedi cael llond bol gyda'r gwaith gan ddweud wrth Ifan ei fod yn gwybod sut i gael Robat y bos i'w anfon e adre.

Pan ddaeth Robat y bos i'r stafell roedd Jac yn hongian o'r trawst yn y nenfwd gyda'i ben i waered.

"Beth wyt ti wneud Jac?" holodd Robat.

Cafod yr ateb:

"Nid Jac wyf fi ond y bwlb golau"

Mewn penbleth penderfynodd Robat yn y fan a'r lle i anfon Jac adref o'i waith am weddill y dydd.

Dringodd Jac i lawr o'r nenfwd a gadael y swyddfa.

Ar yr un pryd fe gododd Ifan ei bac a hel am adre.

"Lle rwyd ti'n mynd?" meddai Robat.

Atebodd Ifan:

"Dwi mynd adre, ti ddim yn disgwyl i mi weithio yn y t'wllwch 'ma wyt ti?'"

Grant Mayhew Ltd
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Portreadau Arvid



Y tro hwn yn y gyfres o ffotograffau gwyh a dynnwyd gan Arvid Parry-Jones tua deugain mlynedd yn ôl ar gyfer *Papur Pawb*, cawn bortread o deiliwr wrth ei waith. Y teiliwr oedd James Ellis, Bont-goch (Jim Penro, 1905-1986) a'r diweddar J R Jones aeth draw i'w gyfsweld ar gyfer rhifyn Ionawr 1982. Dyma ddarn o'r ysgrif:

'Pan oedd James yn blentyn 'roedd Bontgoch yn bentref bywiog, a thros drigain o blant yn yr ysgol, deuent o'r cymoedd cyfagos a llwybrau digysgod gan lawer ohonynt, cyn belled a Bryn Fedwen a Llawrcwm-bach. Saesneg oedd iaith yr ysgol y tu mewn i'r pedair wal, a phe meiddiai un o'r plant ofyn cwestiwn yn ei famiaith - hyd yn oed gofyn am fynd allan, byddai'r gansen yn disgyn yn ddidrugaredd, ond mynnodd ein hiaith fyw ym mrynau Elerch er cymaint y chwipio a'r dilorni a fu arni, ac er mawr cywilydd i gyfundrefn addysg bwdwr y cyfnod....

Wedi gorffen ysgol a gweithio ychydig ar y tir, penderfynodd James ddysgu crefft teiliwr, a bore i'w gofio oedd hwnnw pan ddechreuodd ar ei brentisiaeth gydag Edwards, Pengroes yn Llandre, a'i gyd brentis oedd Ifor Davies, Aberystwyth. Roedd y telerau yn glir - y flwyddyn gyntaf gweithio'n ddi-dâl a chael siwt o ddillad ar ben tymor. Yr ail flwyddyn chweugain yr wythnos a siwt arall, a byddai'n rhaid bwrw tair blynedd o brentisiaeth cyn ennill cyflog o bunt a chweugain yr wythnos, ac yna colli y siwt rad. Gwaith y ddau brentis ar y dechrau fyddai gofalu bob yn ail am y tân a'r heyrn presio a'r oriau gweithio o wyth hyd chwech, a gŵr o'r enw Alser a fyddai'n gofalu am y ddau hogyn, eu danfon gyda'r ferfa i nol y defnyddiau o'r stesion, a dechrau ymarfer drwy wnio rhacs. 'Roedd busnes lewyrchus ym Mhengroes a saith o deilwriaid yno yn gweithio, a siop ychwanegol yn y Borth. Edwards a'i fab Idwal a fyddai'n mesur a thorri'r brethyn ar y cownter, ac yna dod a'r got a'r wasgod i'r gweithdy i'w rhedeg ag edau wast, wedyn ffitio a phinio ac ail ffitio. Byddai chwech ohonynt yn eistedd ar yr un bwrdd, gan groesi'u coesau odanynt, 'roedd hyn ar wahân i fynd a llai o le yn llawer gwell i'r cefn nag eistedd ar gadair, a byddai dau deiliwr yn gwneud siwt y dydd, un yn gweithio ar y got a'r llall ar y trowser a'r wasgod, a byddai'n rhaid gofalu boddhau pob cwsmer, ac roedd nifer y pocedi yn amrywio o siwt i siwt; byddai'r gwaith mor berffaith fel y byddai'r siwt yn gadael y botymau cyn y byddai'r un botwm yn gadael y siwt. Bu gweithdy Edwards Pengroes, yn glod i'r ardal, ond fe ddaeth siwtiau rhad Burtons ar y farchnad â'i slogan slic am siwt ddeg swllt ar hugain a dechreuodd busnes teilwra Edwards a'i gwmni gwaetha'r modd golli'r dydd. Wedi cyfnod yn y Llu Awyr yn ystod y rhyfel bu James am flynyddoedd yn gofalu am ei "length", ac roedd yn bleser gweld y ffordd o Bontgoch i Bencwm, y cloddiau'n drefnus a'r sianeli wedi'u codi'n lan i gario'r dwr glaw, mor wahanol heddiw! mae'n gywilydd gweld cyflwr ffyrdd bach y wlad.'

Colofn Ben Lake AS

I ble aeth 2021? Mae'n sicr wedi bod yn flwyddyn heriol arall i bob un ohonom - yn weithwyr allweddol, pobl hŷn, staff y gwasanaethau iechyd a gofal, plant a phobl ifanc a'n busnesau bach.

Mae'r heriau wedi parhau hefyd yn y byd gwleidyddol gydag ymateb i'r pandemig, negodi cytundebau masnach a delio gyda sgil effeithiau Brexit yn llenwi amser gwleidyddion yn San Steffan. Yma yng Nghymru, ar drothwy tymor y gaeaf, mae Arweinydd Plaid Cymru Adam Price a Phrif Weinidog Cymru wedi cyhoeddi Cytundeb Cydweithio. Rhaglen bolisi ar y cyd yw'r cytundeb ac mae'n ymdrin â 46 o feysydd amrywiol. Yn eu plith y mae ymrwymiad i gymryd camau radical ar fyrder i fynd i'r afael â'r argyfwng ail gartrefi; a sefydlu cwmni, dan berchnogaeth gyhoeddus, i annog cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned.

Bydd Grŵp Senedd Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yn cydweithio dros y tair blynedd nesaf i wireddu'r polisïau sy'n rhan o'r cytundeb, a dwi'n ffyddiog y bydd nifer o'r polisïau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau gwledig yma yng Ngheredigion.

Un o'r meysydd sy'n cael tipyn o sylw yn y cytundeb rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru yw'r broses caffael. Y nod dros y tair blynedd nesaf yw gosod targedau ystyrlon i gynyddu lefel caffael sector cyhoeddus Cymru o'r lefel bresennol, sef 52%. Fel man cychwyn, y bwriad yw cynnal dadansoddiad manwl o gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus, a hyrwyddo prynu nwyddau a gwasanaethau o Gymru.

Mae gymaint o fanteision i bwrcasu'n lleol - mae'n cryfhau'r economi lleol yn sylweddol ac mae gweithredu cadwyni cyflenwi byrrach yn golygu costau cludo is a llai o effaith ar yr amgylchedd ac mae hefyd yn golygu llai o risg a gwasanaeth mwy dibynadwy.

Ar ddydd Sadwrn, 4 Rhagfyr, rydym yn dathlu Sadwrn Busnesau Bach - ymgyrch sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd busnesau bach ac i annog cwsmeriaid i 'siopa'n lleol' a chefnogi busnesau bach yn eu cymunedau. Ac er mor bwysig yw'r diwrnodau yma i godi ymwybyddiaeth, mae'n bwysig ein bod ni'n cefnogi ein busnesau bach lleol bob diwrnod o'r flwyddyn os ydyn ni am iddyn nhw ffynnu.

Felly ar drothwy'r flwyddyn newydd fel hyn, dewch i ni wneud addewid gyda'n gilydd i ganolbwyntio ar y lleol - siopa'n lleol, prynu'n lleol a chefnogi'n lleol. Nadolig Llawen i chi a'ch teuluoedd i gyd a blwyddyn newydd dda!



Afiath

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiath@aol.com

STORFA HUNAN FYNEDIAD

UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI

**MONITRO DIOGELWCH
24 AWR**

Storfa Cartref & Busnes

Bocsos a Bubblewrap

Symud gyda

STORFA CANOLBARTH CYMRU

Tel: 01654 703582
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

**MID WALES
STORAGE**

www.midwalesstorage.co.uk

Teyrnged

Hugh Owen Rowlands

Ganwyd Hugh Owen Rowlands ar 1af o Orffennaf 1944 yng Nghaeau Madog ger Pennal, yr ieuengaf o bedwar plentyn i Hugh Richard Rowlands a'i wraig Jane Ann, yn frawd i John a'i ddwy chwaer yr efeilliaid Mair ac Iola.

Symudodd y teulu i fyw i fferm Henhafod yn 1952 ac ar ôl gadael Ysgol Uwchradd Machynlleth daeth Hugh adref i weithio ar y fferm ochr yn ochr a'i dad a'i fam, ei frawd John a'i chwaer Mair. Bu eu tad farw yn gymharol ifanc ond fe ymrwymodd y teulu i weithio'n galed a chefnogi eu mam gan fod Henhafod yn fferm sylweddol, gan gynnwys buchesi o wartheg godro a gwartheg stôr ynghyd a diadell o ddefaid. Mae gen i frith gof ohono yn cadw moch ar un adeg hefyd!

Roedd Hugh yn fachgen ifanc golygus a llygaid direidus, a chredwch neu beidio gyda mop o wallt cwrl. Buan y cwrddodd â Mair Morris o Dalbontdrain, Forge, Machynlleth a phriodi ym mis Hydref 1970 a chafwyd bywyd priodasol hir a hapus o 51 mlynedd. Ganwyd iddynt ddau o blant, Susan a Barry ac roedd y ddau ynghyd a'r wyrion Noa, Magi a Nel yn gannwyll ei lygad. Roedd yn dad a thaid cariadus a chefnogol yn barod ei gymwynas bob amser, pa unai'n helpu Susan gyda'i defaid Zwartbles a'u cludo yma ac acw i'r sioeau, neu wrth ymestyn llaw i Barry efo'i waith adeiladu ynghyd a chefnogi'r wyrion. Roedd yn falch iawn o'u diddordebau a'u llwyddiant - Noa efo'i bêl droed, Magi efo'i gymnasteg a rhedeg trawsgwlad, a Nel oedd yn hoffi dilyn Taid o amgylch y fferm a wastad mor barod i gadw cwmni iddo ar ambell drip yn y lori.

Yn dilyn symud i'r Erglodd doedd dim segura i fod, sefydlodd Ganolfan Gasglu defaid ac Wyn stôr a theithiau'n gyson i Birmingham a Merthyr yn y lori gan weithio oriau hir.

Ychydig dros flwyddyn sydd ers pan glafychodd Hugh, fe wynebodd ei afiechyd yn ddirwgnach ac yn ddewr ac mae'r teulu'n diolch yn fawr iawn ac yn gwerthfawrogi'r gofal tyner a dderbyniodd yn yr ysbyty yn ei ddyddiau olaf.

AMH

Dymuna Mair, Susan, Barry, Noa, Magi a Nel a theulu'r diweddar Hugh Rowlands, Erglodd, Taliesin, ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd tuag atynt yn dilyn colli Gŵr, Tad a Thaid annwyl. Hoffent ddiolch am y cardiau, galwadau a rhoddion hael tuag at 'Ward Banwy', Ysbyty Bronglais, a dderbyniwyd er cof amdano.

Cymdeithas y Chwiorydd

Cyfarfu'r aelodau yn festri capel Rehoboth, Tre-Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 9 Tachwedd. Estynnodd Eiriona Metcalfe groeso i'n gwraig wadd, sef Yr Athro Hazel Walford Davies, Aberystwyth, a hefyd i Audrey Evans, a ddaeth yn gwmni iddi. Teitl ei sgwrs oedd 'Dod i adnabod Syr O. M. Edwards', a chawsom ganddi hanesion diddorol am ei ymweliadau â'r ardal yma. Bu ef yn traddodi anerchiad adeg sefydlu Edward, Tywysog Cymru, yn Ganghellor Prifysgol Cymru yn Aberystwyth ym mis Mehefin 1896, ac yn ystod ei gyfnod fel Arolygydd Ysgolion ymwelodd ag Aberystwyth a'r ardal yn 1912. Yr adeg honno roedd nifer o ddynion enwog â chysylltiad â'r Coleg yn byw yn y dref, a diddorol oedd clywed yr hanesion am O. M. Edwards yn ymweld â hwy yn eu cartrefi a chael gwybod ganddi ble yn union yr oedd y cartrefi hynny. Diolchwyd i'r Athro Hazel Walford Davies am sôn am rai o ddigwyddiadau cyffrous y cyfnod a'r rhan a chwaraeodd un o ddynion mawr ein cenedl yn yr hanes hwnnw.



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Misol Mis Tachwedd 2021

Cynhaliwyd cyfarfod misol Mis Tachwedd yn y Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont ar Nos Iau, 2 Rhagfyr 2022, gyda chwech o'r Cynghorwyr yn bresennol ynghyd a'r Clerc, Mr Rab Jones. Cynhaliwyd y cyfarfod wythnos yn hwyrach na'r arfer oherwydd bod y ffordd fawr trwy Dal-y-bont wedi cau dros nos ar gyfer gwaith ar wyneb y ffordd yr wythnos cynt. Cychwynnodd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd, y Cyng. Megan Mai, yn cynnig croeso cynnes i bawb.

Swydd y Clerc

Cadarnhaodd y Cyng. Megan Mai nad oedd neb hyd yn hyn wedi dangos unrhyw ddiddordeb yn swydd y Clerc er bod hysbysebion wedi ymddangos mewn nifer o bapurau bro lleol yr ardal. Cytunwyd bod y Clerc presennol, Mr Rab Jones, yn parhau yn y swydd nes bod Clerc newydd wedi cael ei benodi.

Sefyllfa Coronafeirws

Rhoddodd y Cynghorydd Sir, Cyng. Ellen ap Gwynn ddiweddariad ar y sefyllfa ddiweddaraf yng Ngheredigion gyda coronafeirws. Mae'n glir fod pryder yn parhau ynglŷn y nifer o achosion coronafeirws yn y Sir ond fod y sefyllfa wedi gwella rhywfaint yn ystod y mis diwethaf. Nodwyd y bydd rhaid disgwyl i weld be fydd effaith yr amrywiolyn coronafeirws newydd, "Omicron", ar yr ardal ac mae'n bwysig fod pawb yn parhau i fod yn ofalus.

Seremoni Sul y Cofio

Eglurodd y Cadeirydd, Cyng. Megan Mai, fod gwasanaeth addas a pharchus wedi cymryd lle ar Sul y Cofio, 14 Tachwedd 2021. Cadarnhawyd y bu rhaid cynnal y gwasanaeth y tu allan i'r Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont unwaith eto oherwydd y sefyllfa gyda Covid. Estynnwyd diolch i'r Cyng. Nest Jenkins am drefni'r ddau dorch ac i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth.

Coed Nadolig

Estynnwyd diolch i'r Cyng. Enoc Jenkins am ei waith caled gyda threfni gosod y Goeden Nadolig ar y Patsyn Glas a hefyd i bob unigolyn a fu'n helpu gyda'r gwaith paratoi ar gyfer gosod y goeden yma a'r goleuadau ar y Neuadd Goffa. Gobeithiwn bydd pawb yn mwynhau gweld y goleuadau yma dros gyfnod y Nadolig yn dilyn blwyddyn anodd arall i drigolion yr ardal.

Cymorthdaliadau'r Cyngor Cymuned

Cytunwyd gosod hysbyseb yn rhifyn Mis Rhagfyr Papur Pawb i hysbysu mudiadau lleol i gyflwyno cais am gymorthdaliadau'r Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22. Bydd yr Is-bwyllgor Cyllid yn cwrdd ar Nos Lun, 24 Ionawr 2022 i ystyried unrhyw geisiadau sydd yn cael eu derbyn gan y Clerc cyn y diwrnod cau ar Ddydd Gwener, 21 Ionawr 2022.

Materion Eraill

Cafwyd diweddariad ar nifer o faterion eraill yn cynnwys materion ffyrdd a materion y fynwent. Eglurodd y Cyng. Emyr Davies ei bod yn braf gweld fod blwch ffôn newydd wedi cael ei osod ger Cwmere. Ni fydd y Cyngor Cymuned yn cwrdd yn ystod Mis Rhagfyr ac felly bydd y cyfarfod misol nesaf ar Nos Iau, 27 Ionawr 2022.

Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

rab.jones@btinternet.com / 07831 402 002 / 07904 716 180



Karen a James yn derbyn y wobwr am hybu bwyd lleol gan Prue Leith

Cletwr

Mae llawer o newyddion da i'w adrodd mis 'ma. Mae Cletwr wedi ennill gwobr arall, staff newydd wedi ymuno â ni, y caffi wedi ail-agor, ac mae llawer o fargeinion ar gael ar gyfer y 'Dolig.

Hanes y wobwr yn gyntaf. Mae Cletwr wedi bod yn aelod o'r Plunkett Foundation ers blynyddoedd, ac wedi ennill gwobrau ganddynt o'r blaen. Ond y tro 'ma, mae'n rhywbeth sbesial sef gwobr am hyrwyddo bwyd lleol (a chynnyrch eraill) - "Rural Vision - Re-localisation of Produce". Mae gwerthu a hybu bwyd lleol, a drwy hynny rhoi cefnogaeth i'r economi lleol, wedi bod yn rhan o weledigaeth Cletwr ers y cychwyn. Erbyn hyn rydym yn gwerthu pethau gan ddwsinau o gynhyrchwyr lleol, gan gynnwys cynnyrch 9 fferm. Edrychwn ymlaen at ymestyn hyn yn y dyfodol - os ydych yn gynhyrchydd bwyd neu ddiod lleol ac eisiau gwerthu drwy Cletwr, cysylltwch â thîm y siop.

Mae'n wych medru adrodd bod y caffi wedi ail-agor! Oriau arferol (9.30-16.00, 15.00 Ddydd Sul), ond gyda rhai newidiadau i'r fwydlen. Does dim bwyd poeth ar gael (eto) - dim ond diodydd poeth, cacennau, brechdanau parod, ac - rhywbeth newydd - pastis Danaidd! Byddwn yn ymestyn y fwydlen yn ystod yr wythnosau i ddod, pan fydd amser yn caniatáu. Mae hyn wedi bod yn bosibl oherwydd rhai newidiadau yn ein tîm yn y caffi. Mae Jane a Derv wedi ymddeol (pob lwc iddyn nhw) ac mae Robyn wedi ymuno â ni yn y caffi a Jane yn y gegin. Ond rydym yn dal i chwilio am fwy o staff i'r caffi ac i'r gegin. Rhowch wybod os oes diddordeb gyda chi.

Mae'r 'Dolig bron yma. Mae'n dod â llawer o hwyl a sbri, ond gyda llawer o straen a phwysau hefyd i nifer ohonom! Cewch leihau'r straen yn Cletwr. Mae ystod eang o fwyd a diod arbennig ar gael sy'n berffaith fel anrhegion. Cewch gael basged o'ch dewis, neu jyst prynu pethau unigol. A pheth arall i leihau'r straen: fel bob blwyddyn, rydym yn cymryd archebion ar gyfer bwyd i'r Diwrnod Mawr - cig gan Gigydd Bow Street, Llysiau, Bara gan Rye a Roses, ein stwffin, saws bara, picau ar y maen a bara brith Cletwr, a bwyd fegan blasus iawn gan Iwtopia - i gyd i'w codi o'r siop ar Noswyl Nadolig, dim angen ichi fynd i'r dre! Mae ffurflenni archebu a manylion ar gael yn y siop. Rhaid archebu'r cig erbyn 14eg o Ragfyr a'r gweddill erbyn yr 20fed.

Felly edrych ymlaen at eich gweld chi yn y caffi dros yr wythnosau i ddod, am baned a mins-pei efallai? A chewch weld y plac newydd wnaethon ni ei dderbyn gan Plunkett!



Robyn (ar y chwith) a Jane

CFfl Tal-y-bont a'r Cylch



Ioan, Lois ac Elan - Tîm Darllen dan 14 oed

Bu'r Clwb yn brysur eto mis yma a nifer yn cystadlu yn Niwrnod Maes y Sir yn Nhrawscoed. Diolch i Elin, Bedwyr, Richard, William, Sara, Alwenna, Jona a Gwenno am gystadlu a gwneud mor dda ar y ffensio, fideo hyrwyddo'r Ffair Aeaf, barnu stoc, cystadleuaeth ATV, y ciwb a gyrru tractor. Hefyd, fe gynrychiolodd Beca Williams ni yn Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru ar y gystadleuaeth Cân Sioe Gerdd. Cawsom gryn hwyl yn chwarae golff yn Llanrhystud ar Dachwedd yr 16eg ac fe gawsom wledd o fwyd wedyn wrth wyllo gêm bêl-droed Cymru yn y clwb. Yr wythnos ganlynol, buom yn brysur yn gwneud addurniadau Nadolig o dan arweiniad Mair Nutting. Maent i gyd yn hardd iawn a bellach ar ein coed Nadolig. Ddiwedd Tachwedd bu criw ohonom yn chwarae gemau amrywiol yn Neuadd Rhydypennau gan gynnwys 'Allwch Chi Jengyd' a drefnwyd gan Sara a Sera. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Elan, Lois ac Ioan am gipio'r wobwr gyntaf am y Tîm Darllen gorau dan 14 oed yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg yn Felin Fach dan hyfforddiant Rhian Evans. Daeth Lois i'r brig fel y Cadeirydd gorau ac yn gydradd ail fel Siaradwr a phob lwc iddi yn cynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth Cymru ym mis Mawrth. Rydym yn edrych ymlaen mis yma at fynd o amgylch yr ardal i ganu carolau. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

Y Gair Olaf



Diwrnod fy mhen blwydd yn ddwy ar bymtheg oed aeth dad â fi i'r garej at Gwynfor a Defi Pryse i brynu 'L plates'. Rhaid oedd dysgu gyrru yn syth bin. Doedd mam ddim yn fodlon i mi ddal y bws chwarter wedi deg adre o'r dre ar nos Sadwrn ("Meddwod sydd ar hwnnw" chwedl mam). Felly, rhaid oedd dal y bws chwarter i naw a cholli hanner ola bob ffilm yn y sinema. Ces gar-mini bach lliw mwstard- OEP 772L. Annibyniaeth! Rhyddid!

OND gwae unrhywun oedd yn torri'r 'sbîd limit' yn Bow Street. Roedd Heddlu fanna bob amser. A fel 'na mae hi dal i fod, 47 mlynedd yn ddiweddarach!

Dim ots am Dal-y-bont, gallwch sbîdo drwy Tal-y-bont faint fynnwch chi. Gallwch barcio ble mynnwch hefyd mae'n debyg (os oes lle)-o flaen gatiâu pobl, ar y pafin, ar linellau melyn.

A beth am groesi'r ffordd? Ble mae croesfan Tal-y-bont? Weithiau gall gymeryd dros bum munud i groesi'r ffordd gyferbyn â'r siop.

Mae lorïau yn taranu drwy'r pentre, brêcs yn sgrechian, rhai yn dalach na'r Bryn! Rhai eraill yn gwthio drwyddo yn ddienaid, fel swch eira, dim ots am neb.

OND, mae 'na arwyddion 'home made' ger Rhiwlan (diolch i Nia a Marc) sydd YN sobri rhai ohonom ac efallai y dylai pob un ohonom, wrth basio Rhiwlan, ddychmygu mai gyrru i mewn i Rhydypennau rydym ni, nid Tal-y-bont.

Felly gyfeillion, cwestiwn yw fy ngeiriau olaf: Pa bris diogelwch ar y ffordd yn Nhal-y-bont?

Janet Fry

Archebwch eich cig o gigyddion lleol neu ddewiswch focs ffrwythau a llysiau. Y cyfan i'w gasglu o Cletwr ar Noswyl Nadolig.

Ffurflenni archeb ar gael yn y Siop.

01970 832 113 | cletwr@cletwr.com

Cletwr

Annwyl gyfaill,

Bwyd-Natur-Lles
Tyfu Dyfi

Tyfu Dyfi - Cynllun Bwyd Natur a Lles - Galwad am safleoedd tyfu cymunedol

Hoffech chi fod yn fwy cynaliadwy o ran tyfu a bwyta bwyd lleol eich hun, cefnogi natur wrth wneud a bod y weithred o gyflawni hyn yn llesol i'ch iechyd?

Mae prosiect Tyfu Dyfi yn ardal Biosffer Dyfi sef yr ardal rhwng Llanymawddwy ac Aberystwyth a Charno a Thywyn yn gofyn am eich diddordeb i gyflawni hyn.

Cynllun i gefnogi tyfu bwyd ar gyfer trigolion lleol yw'r cynllun dros flwyddyn a hanner yma, sydd am geisio creu gwreiddiau tymor hir ar gyfer system fwyd lleol a chynaliadwy i'r dyfodol.

Rydym yn edrych am safleoedd yn eich cymuned ar gyfer tyfu bwyd.

Mae tymor y gwanwyn ac amser tyfu ar y gorwel a hoffwn estyn allan i gymunedau a thyfwr i ystyried os oes ganddynt safleoedd o ddiddordeb i fod yn rhan o gynllun Tyfu Dyfi. Gall cymuned a safle dderbyn cefnogaeth ariannol, hyfforddiant ac arbenigwyr i ddechrau'r broses. Gallwn gynnig -

- Hyfforddiant, e.e. i hyfforddi garddwyr gwirfoddol
- Costau sy'n gysylltiedig â safle gwaith, e.e. twnnel polythen / tŷ gwydr, gwelyau tyfu rhwydd i'w cyrraedd, compostiwr, ffensys, pibellau dŵr, berfau / whilberi, ac ati.
- Costau deunyddiau, e.e. compost / gwrtaith, graean, ac ati
- Help gyda chostau prydlesu

Bydd y meini prawf dethol a ddefnyddiwn yn y broses uchod yn amlwg wrth i chi lenwi'r ffurflen sydd ar ein gwefan Tyfu Dyfi, ond i grynhoi, rydym yn edrych yn bennaf am safleoedd tyfu sy'n:

- Derbynn neu'n debygol o dderbyn cefnogaeth gymunedol gref ac a fydd yn denu cyfranogiad cryf gan y gymuned
- Cael ei gynnal ac yn parhau ymhell ar ôl prosiect Tyfu Dyfi ddod i ben
- Sy'n agos at ble mae pobl yn byw ac yn hygyrch iddynt
- Ym meddiant perchnogaeth tir clir, tirfeddiannwr cefnogol a dim problemau hawliau tramwy, cyfyngiadau cynllunio, materion gwasanaeth, ac ati
- Yn werth am arian
- Yn faint addas ac yn ddiogel ar gyfer y gweithgareddau arfaethedig
- Cael cefnogaeth ehangach y tu hwnt i'r gymuned breswyl uniongyrchol, e.e. grwpiau cymunedol eraill, busnesau, ysgolion
- Cyfrannu at seilwaith gwyrdd ehangach

Mae mwy o wybodaeth i'w gael ar ein gwefan sef www.biosfferdyfi.cymru/tyfudyfi ac mae ffurflen ar gael i roi manylion a mynegi diddordeb yno hefyd.


Bydd y safleoedd yn cael eu dethol ddiwedd Ionawr / dechrau Chwefror.

Os yn ffermwr, yn dirfeddiannwr neu dyfwr masnachol byddwn yn gwneud galwad arall yn fuan am fynegiant o ddiddordeb am safleoedd mwy. Cadwch olwg allan am gyhoeddiad neu gallwch gysylltu â mi yn y cyfamser drwy'r manylion isod.

Arfon Hughes, Ecodyfi, Y Plas, Machynlleth SY208ER neu arfon@ecodyfi.cymru / 01654 703965.

Diolch rhag blaen.

Arfon Hughes, Swyddog Cyfathrebu a Gweinyddu Tyfu Dyfi



Heuldro

I godi calon y rhai sy'n gweld yr adeg yma o'r flwyddyn yn anodd o ran y gwynt, y glaw, a'r oerfel ond yn arbennig y tywyllwch, y newyddion da yw bod yr haul yn machlud ar ei hwyraf ar ddydd Gwener 16 Rhagfyr ac, fesul cam ceiliog, diolch byth, yn dechrau machlud yn gynharach o hynny ymlaen. Yn anffodus nid yw'r wawr yn newid fesul cam ceiliog tan ddechrau mis Ionawr ond erbyn canol y mis mae'n amlwg i bawb bod y diwrnod yn ymestyn. Gelwir yn Alban Arthen pan mae ond 7awr 40munud o olau dydd. Eleni 21 Rhagfyr sy'n digwydd bod y diwrnod byrraf ond nid bob blwyddyn. I chi, a'r diwrnod byrraf yw hwn neu'r noson hiraf?

Yn anffodus nid yw'r ystadegau hyn yn gwneud gronyn o wahaniaeth i'r gwynt, y glaw na'r oerfel ond gobeithio eu bod yn dod a rhywfaint o gysur i chi'r adeg anodd yma o'r flwyddyn. 'Mae amser gwell i ddyfod-ha-haleliwia' medde'r gân a hynny cyn bo hir. Ond cyn gorffen ac i godi calon yn uwch, beth am edrych chwe mis i'r dyfodol pan fydd 16awr 49 munud o olau dydd ar 21 Mehefin. Yr enw yw Alban Hefin. I chi, a'r diwrnod hiraf yw hwn neu'r noson fyrraf?

Rhys Huws

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576



NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

Gwobrwyo Nigel

Llongyfarchiadau enfawr i Nigel Callaghan, wrth iddo ennill Gwobr Garedig Tu Hwnt gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO), am ei waith yng Nghletwr ar gymuned leol. Mae Gwobrau Gwirfoddolwyr Ceredigion 2021 yn diolch i'r miloedd o drigolion Ceredigion sydd wedi rhoi o'u hamser i wirfoddoli a chefnogi mudiadau a'u cymunedau dros y 18 mis diwethaf.

Mae Nigel yn llysgennad arbennig ar gyfer cynlluniau menter gymunedol, ac yn barod pob amser i rannu gwybodaeth a chynnig cyngor i fudiadau eraill. Yn ogystal a'i waith caled fel gwirfoddolwr yn y siop ar caff i Cadeirydd, yn ystod y cyfnod clo roedd Nigel yn brysur yn dosbarthu bwyd a meddyginiaethau i bobl fregus. Mae'n cyfrannu at nifer o grwpiau cymunedol ac yn ohebydd lleol i Bapur Pawb. Sefydlodd Glwb Hanes Taliesin, gan drefnu darlithiau diddorol yn neuadd y pentref. Mae hefyd wedi trefnu nifer o deithiau o gwmpas yr ardal leol. Mae ei waith gyda Toilet Twinning wedi codi miloedd o bunnoedd at yr achos, yn sicrhau toiledau diogel, glan a chyfleusterau golchi dwylo mewn nifer o wledydd ar draws y byd. Mae hefyd yn cefnogi'r elusen leol Hasina.

Mae Nigel wir yn ysbrydoliaeth i ni gyd ac wrth iddo gymryd saib haeddiannol o'i ddyletswyddau fel Cadeirydd, dymunwn gymryd y cyfle i ddiolch iddo ar ran pawb yng Nghletwr am ei waith caled di-dor dros y blynyddoedd diwethaf.



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cymorthdaliadau 2021 / 22

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau lleol. Dylai ceisiadau gynnwys disgrifiad o'r gweithgareddau, nifer y bobl byddai'n elwa, a manylion unrhyw brosiect arbennig (os yn gymwys). Ni all y Cyngor ystyried unrhyw gais heb gopi o'r fantolen ddiweddaraf.

Dylid danfon ceisiadau at:-

Mr Rab Jones

Clerc Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr
Erw Deg, Glantwymyn, Machynlleth SY20 8LD

rab.jones@btinternet.com

Dyddiad cau: Dydd Gwener, 21 Ionawr 2022

LLAETH LLEOL ORGANIG

ar gael yn y

Cwtsh Llaeth Aberystwyth a Machynlleth

www.llaethjenkinsmilk.co.uk

07813 827 712

@cwtshllaeth



Hefyd ar gael yn
Cletwr,
Tre'r Ddol

Jenkins, Cerrigaranau Uchaf,
Talybont

Gweithio gyda phlant bach er budd yr iaith Gymraeg

A fydddech chi'n mwynhau cyflwyno'r Gymraeg i blant bach eich cymuned leol gan gadw'r iaith yn fyw yn eich ardal? Mae 'na lawer o gyfleoedd ar gael i drio am swyddi yn eich Cylchoedd Meithrin Lleol.

Mae gweithio mewn Cylch Meithrin gyda phlant 2-5 oed yn gallu rhoi boddhad mawr i chi wrth weld y plant yn siarad Cymraeg am y tro cyntaf a rhoi hyder i'w rhieni i'w gyrru ymlaen i Addysg Gymraeg. Gallwn hefyd eich cefnogi i gael hyder i ail-gydio yn y Gymraeg os nad ydych wedi cael cyfle i'w defnyddio yn aml ers i chi adael yr ysgol.

Trwy weithio mewn Cylch Meithrin byddwch yn cyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Os hoffech ystyried newid swydd, yna mae gennym gynlluniau hyfforddi amrywiol i'ch helpu i ennill cymhwyster addas tra'n gweithio.

I glywed mwy am ein holl swyddi, ewch i'n gwefan – www.meithrin.cymru/swyddi

Am sgwrs pellach mae croeso i chi gysylltu gyda Leanne Marsh, drwy ffonio 01970 639639 neu e-bostio leanne.marsh@meithrin.cymru.

Cofion caredig,
Dr Gwenllian Lansdown Davies
Prif Weithredwr Mudiad Meithrin

Eisiau gweithio gyda phlant bach?



Mae nifer o wahanol swyddi ar gael mewn Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Mudiad Meithrin.

Dyma gyfle i chi gyflwyno'r Gymraeg i blant bach yn eich ardal chi. Byddwch yn cael pleser o'u gweld yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus gan wybod eich bod chi wedi cyfrannu at hynny!

Am wybodaeth am ein holl swyddi ewch i'n gwefan –

www.meithrin.cymru/swyddi

Angen cymhwyster gofal plant?

Mae gennym nifer o gyrsiau ar gael i'ch helpu –

www.meithrin.cymru/prentisiaeth

Am sgwrs pellach: Leanne.marsh@meithrin.cymru
neu ffoniwch 01970 639639



CHWARAEON



Mae tîm Tal-y-bont Toucan o dan 8 oed yn hapus iawn yn gwisgo eu hwdis sydd wedi cael ei noddi gan Siop Premier Tal-y-bont.

Ieuenctid Tal-y-bont



Dyma lun o'r 'Cobras', tîm dan 10 oed Tal-y-bont. Mae'r tîm wedi cael cit newydd sbon drwy garedigrwydd Wynford Motors, Glan-yr-Afon, a Tomek Kornacki. Mae'r plant yn diolchgar iawn ac yn edrych yn smart iawn!

Mae'r tîm yn chwarae gemau cynghrair ar gae Pêl-droed Aberystwyth bob dydd Sadwrn. Ar 27 Tachwedd enillwyd gemau yn erbyn Tornadoes Tal-y-bont, Ystwyth Falcon B a Merched Penrhyn-coch.

Diolch i Kam a Dean am hyfforddi'r tîm ac i'r rhieni am eu cefnogaeth a hynny'n aml yn ystod tywydd garw!

Ceri Morgan

Gwasanaeth argraffu diguro

Holwch Paul
am bris!
paul@yloffa.com
01970 832 304

yloffa
Talybont
Ceredigion
SY24 5HE
www.yloffa.com

Arbrawf Wŷn Hyrddod 2021- 22



Bryn Jones, Ceiro yn dal yr oen buddugol gyda Tomos Hulme, Is Gadeirydd yn cyflwyno'r darian.

Er gwaethaf Covid, mae amaethyddiaeth yn dal i ffynnu. Daeth wyth aelod o Gymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion ynghyd i gymryd rhan yn arbrawf yr ŵyn hyrddod eleni. Bydd 50 o ŵyn hyrddod yn gaeafu yn Fferm Y Coleg, Gogerddan, Penrhyn-coch. Fel yr arfer cafodd yr ŵyn eu beirniadu am yr oen mwyaf addawol. Daeth Dafydd Jones, Fferm Ceiro, Ponterwyd yn fuddugol, gydag ŵyn Enoc Jenkins, Tynygraig a Dafydd Jenkins Tanrallt, yn ail a thrydydd. Llongyfarchiadau i'r tri ohonynt.

Gwarchodfa RSPB Ynys-hir

Ar yr 16eg o Dachwedd gwelwyd achos o'r fflw adar H5N1 mewn nifer fach o adar gwyllt ar y morfa heli yn RSPB Ynys-hir. Deallwyd bod y firws mewn adar a ddarganfuwyd yn farw ar y safle a hynny o ganlyniad i staff y warchodfa ac ymwelwyr gwyliadwrs.

Nid yw'r canfyddiad hwn yn annisgwyl gan fod y clefyd eisoes wedi'i ddarganfod mewn adar gwyllt ledled Ewrop, gan gynnwys achosion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn gynharach yn y mis.

Yn dilyn cyngor gan Wasanaeth Diogelu Cyngor Sir Ceredigion o ran sicrhau bod y mesurau bioddiogelwch cywir ar waith, roedd y warchodfa yn medru ail agor i ymwelwyr. Rhaid i ymwelwyr gymryd gofal i osgoi cyswllt corfforol ag adar marw neu sâl, a dylid adrodd am unrhyw ganfyddiad i staff y safle neu'n uniongyrchol i linell gymorth Defra.

Mae staff a gwirfoddolwyr y RSPB yn parhau i fod yn wylidwrs am enghreifftiau o adar marw neu sâl, a byddant yn rhoi gwybod am y rhain yn ôl yr angen. Cadarnhawyd ar yr 2il o Ragfyr na fu mwy o achosion yn ystod y pythefnos cynt.

Mae'r RSPB yn annog aelodau'r cyhoedd i adrodd am unrhyw adar dŵr gwyllt marw (elyrch, gwyddau neu hwyaid), neu adar gwyllt marw eraill fel gwylanod neu adar ysglyfaethus, i linell gymorth Defra ar 03459 33 55. Mae mwy o wybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf ar fflw adar a chyngror ar leihau risgiau i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yma: <https://llyw.cymru/fflw-adar-y-diweddaraf>

Ar nodyn mwy cadarnhaol, i ddathlu rhyddhau #RobinRobin ar @NetflixUK o'r 24 Tachwedd, sef ffilm fer Nadoligaidd gan @aardman, mae'r RSPB yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau arbennig Robin Robin.

Am fanylion pellach, ewch i - <https://events.rspb.org.uk/ynys-hir>